Edexcel GCE

# Technoleg Cerddoriaeth

**Uwch**

**Uned 3: Portffolio Technoleg Cerddoriaeth 2**

Dyddiad rhyddhau: Dydd Gwener 11 Medi 2009
**Amser: 60 awr**

Cyfeirnod y Papur
**6MT03/01**

**Rhaid bod gennych:**
Copi o'r recordiad gwreiddiol ar gyfer Tasg 3A

## Cyfarwyddiadau i Athrawon

- Rhaid cyflwyno Tasg 3A fel Trac 1, Tasg 3B fel Trac 2, a Thasg 3C fel Trac 3 (neu Draciau 3–8 os dewisir Briff Cyfansoddi 1).
- Rhaid i ganolfannau gadw copïau wrth gefn o holl recordiadau ymgeiswyr a ffeiliau meddalwedd patent ar gyfer Tasg 3A.
- Rhaid cyflwyno'r portffolio cyflawn, yn cynnwys Tasgau 3A, 3B a 3C, i'w asesu ar ffurf recordiadau stereo ar UN CD SAIN, ynghyd â'r llyfr log a'r ddogfen ddatganiad gydag Adran A (Llyfr log) ac Adran B (Ffurflen ddatganiad), wedi'u cwblhau.
- Caiff canolfannau eu hatgoffa y dylai cyflwyniad pob ymgeisydd gael ei gyflwyno ar CD ar wahân (NID ar MiniDisc™ na chasét) a rhaid nodi rhif cyfeirnod y papur (6MT03), rhif y ganolfan, enw'r ymgeisydd a rhif yr ymgeisydd yn glir arno.
- Dylid gwirio CDau cyn eu hanfon, a'u pecynnu fel na wneir difrod iddynt wrth eu hanfon.
- **Rhaid anfon y CD a'r Llyfr log hwn ynghyd â'r Ffurflen ddatganiad wedi'i llofnodi at yr arholwr i gyrraedd erbyn 15 Mai 2010.**

## Cyfarwyddiadau i Ymgeiswyr

- Cwblhewch **bob un o'r TAIR** tasg.

## Gwybodaeth i Ymgeiswyr

- **120** yw cyfanswm y marciau ar gyfer yr uned hon.
- Tasg 3A: Perfformiad Integredig wedi'i Ddilyniannu (40 marc)
- Tasg 3B: Recordiad Aml-drac (40 marc)
- Tasg 3C: Cyfansoddi gan Ddefnyddio Technoleg Cerddoriaeth (40 marc)

*Trowch y dudalen* ▶

W38201A
©2009 Edexcel Limited.
1/

W 3 8 2 0 1 A

edexcel
advancing learning, changing lives

## Amodau Rheoledig

**Mae gan Uned 3 dair tasg yn y Portffolio Technoleg Cerddoriaeth: 3A – Perfformiad Integredig wedi'i Ddilyniannu, 3B – Recordiad Aml-drac a 3C – Cyfansoddi gan Ddefnyddio Technoleg Cerddoriaeth. Hefyd, mae llyfr log y mae'n rhaid ei gyflwyno ar y cyd â'r portffolio.**

Nid yw'r gofyniad am 'Amodau Rheoledig' yn golygu bod rhaid i'r cyflwyniad gael ei wneud, o'r dechrau i'r diwedd, o dan oruchwyliaeth gaeth yn adran technoleg cerddoriaeth yr ysgol neu'r coleg. Gall gael ei rannu'n fras yn ddwy broses, '**ymchwil a pharatoi**' ac '**ysgrifennu**', gyda dim ond yr amser sy'n cael ei dreulio ar ran ysgrifennu'r broses yn cyfrif tuag at yr uchafswm o 60 awr a nodir yn y fanyleb.

### Ymchwil a pharatoi

Yn fras, dyma unrhyw waith sy'n cael ei wneud cyn cwblhau'r arteffact terfynol sydd i'w anfon at yr arholwr.

*Gall* yr ymchwil a'r paratoi *gael ei wneud y tu allan i'r ganolfan*. Nid oes cyfyngiad amser arno. Gall y canlyniadau gael eu cofnodi'n ysgrifenedig neu'n electronig, a gellir mynd â'r rhain i mewn ac allan o'r ganolfan a gellir cyfeirio atynt yn ystod yr amser ysgrifennu rheoledig. Fodd bynnag, *rhaid* i'r athro/athrawes eu harchwilio, a bod yn fodlon mai gwaith y myfyriwr ei hun ydynt.

### Tasg 3A: Perfformiad Integredig wedi'i Ddilyniannu

Bydd ymchwil a pharatoi yn cynnwys amser sydd wedi'i dreulio yn gweithio allan y rhannau o'r trac sain gwreiddiol; datblygu sgiliau cynhyrchu cerddoriaeth gan ddefnyddio'r pecyn dilyniannu/Gweithfan Sain Digidol; arbrofi ag ansoddau (*timbres*), technegau recordio, effeithiau a phrosesu; ymchwilio i'r trac sain gwreiddiol; ymarfer y rhannau sydd i'w chwarae i'r dilyniannwr a rhoi ymarfer i'r perfformwyr byw.

### Tasg 3B: Recordiad Aml-drac

Bydd ymchwil a pharatoi yn cynnwys amser sydd wedi'i dreulio yn astudio'r trac a fydd yn cael ei recordio, paratoi ac ymarfer yr ensemble a fydd yn cael ei recordio, gwirio a phrofi offer, datblygu techneg a lleoli microffonau, profi lefelau a chael popeth wedi'i osod a'i baratoi ar gyfer y broses recordio go iawn, gwrando ar y gwreiddiol a phenderfynu pa effeithiau a phrosesau a ddefnyddiwyd, arbrofi â thechnegau cynhyrchu cerddoriaeth a chymysgu.

### Tasg 3C: Cyfansoddi gan Ddefnyddio Technoleg Cerddoriaeth

Bydd ymchwil a pharatoi yn cynnwys amser sydd wedi'i dreulio yn gwrando ar gerddoriaeth mewn arddulliau sy'n gwneud y mwyaf o dechnoleg; astudio'r briffiau a phenderfynu ar y dewis; cynllunio'r dull o gyflawni'r briff; ymarfer technegau synthesis, samplu, defnyddio effeithiau creadigol ac addasiadau (*manipulation*) eraill ar sain; ymchwilio'n llawn i'r holl bosibiliadau y mae eich meddalwedd a'ch ategion (*plug-ins*) yn eu cynnig; arbrofi â syniadau alawol, harmonig a rhythmig addas; gweithio gyda gwead (*texture*), offeryniaeth, a ffurf; gweithio allan ddrafftiau bras o'r trefniant.

**Ysgrifennu**

Yn fras, dyma unrhyw waith sy'n gysylltiedig â chwblhau'r arteffact terfynol sydd i'w anfon at yr arholwr.

Mae gan fyfyrwyr uchafswm o 60 awr o amser ysgrifennu. Rhaid i athrawon gadw cofnod ysgrifenedig i wneud yn siŵr *nad aethpwyd dros* amser ysgrifennu pob myfyriwr. Gall y 60 awr gael eu rhannu ar draws y 3 tasg fel y bo'n briodol – dylai'r 20 awr y dasg a nodir yn y fanyleb gael ei ddefnyddio fel canllaw, ond nid yw'n orfodol – ond ni ddylid mynd dros y **cyfanswm** o 60 awr ar gyfer y portffolio cyfan.

Bydd amser ysgrifennu'n digwydd yn y ganolfan, naill ai mewn amser gwersi yn yr amserlen neu y tu allan iddynt, beth bynnag sy'n fwyaf cyfleus i bawb. Mae'n rhaid iddo fod o dan oruchwyliaeth.

**Tasg 3A: Perfformiad Integredig wedi'i Ddilyniannu**

Mae unrhyw beth a fydd yn ffurfio rhan o'r recordiad terfynol a anfonir at yr arholwr yn cael ei ystyried yn rhan o 'ysgrifennu' y dasg. Mae hyn yn cynnwys: mewnbynnu nodau i'r pecyn dilyniannu neu olygu unrhyw ddata yn dilyn hynny, gan gynnwys golygu ansoddau, traw, rhythm, gwybodaeth reolydd; recordio'r lleisiau byw a'r rhannau eraill; gwaith ar effeithiau, EQ, prosesu dynameg ac agweddau eraill ar y cymysgedd terfynol. Mae'r sboncio (cymysgu i lawr) terfynol i ffeil sain stereo fel rhan o'r dilyniant gorffenedig hefyd yn cael ei ystyried yn amser 'ysgrifennu', er nad yw paratoi a llosgi'r CD ar gyfer cyflwyno.

**Tasg 3B: Recordiad Aml-drac**

Daw unrhyw beth a fydd yn ffurfio rhan o'r trac sain gorffenedig sydd i'w anfon at yr arholwr o fewn yr amser 'ysgrifennu'. Bydd hyn yn cynnwys recordio'r cerddorion, unrhyw olygu yn dilyn hynny gan gynnwys trimio traciau, gosod lefelau, ychwanegu effeithiau a phrosesu, cymysgu a chreu meistr. Mae'r sboncio (cymysgu i lawr) terfynol i ffeil sain stereo hefyd yn cael ei ystyried yn amser 'ysgrifennu', er nad yw paratoi a llosgi'r CD ar gyfer cyflwyno.

**Tasg 3C: Cyfansoddi gan Ddefnyddio Technoleg Cerddoriaeth**

Daw unrhyw beth sy'n cael ei fewnbynnu i'r trac terfynol sydd i'w anfon at yr arholwr o fewn yr amser 'ysgrifennu'. Bydd hyn yn cynnwys amser sy'n cael ei dreulio'n mewnbynnu'r holl syniadau a gafodd yr ymgeisydd yn ystod yr amser paratoi ac unrhyw addasiadau, golygu ac ychwanegiadau a wneir wedi hynny i'r cyfansoddiad terfynol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys synthesis, golygu ansoddau a lleisiau, addasu seiniau, gwaith samplu a defnyddio effeithiau, a phrosesu. Mae'r sboncio (cymysgu i lawr) terfynol i ffeil sain stereo hefyd yn cael ei ystyried yn amser 'ysgrifennu', er nad yw paratoi a llosgi'r CD ar gyfer cyflwyno.

**Llyfr log**

Nid yw cwblhau'r llyfr log yn cyfrannu at y cyfyngiad 60 awr, ond mae'n rhaid ei gwblhau o dan oruchwyliaeth gyfyngedig.

**Ffurflen Ddatganiad**

Rhaid i ymgeiswyr lofnodi'r ffurflen ddatganiad ar dudalen 16 y Llyfr log gan ddatgan mai eu gwaith eu hunain yw'r gwaith. Ni fydd athrawon yn cydlofnodi'r datganiad os nad yw'r gwaith yn ymddangos yn waith gwreiddiol.

**Tasg 3A: Perfformiad Integredig wedi'i Ddilyniannu**

**Ysgogiadau**

- **Superfreak (Rick James)** Motown 37463-5405-2 (Street Songs)
- **Heart of Glass (Blondie)** EMI 7243 4 94996 2 1 (Atomic: The Very Best Of Blondie)

Gan ddefnyddio'r recordiad gwreiddiol yn ysgogiad i chi, mae gofyn i chi gynhyrchu sylweddiad (*realisation*) integredig wedi'i ddilyniannu o **un** o'r caneuon sydd wedi'u rhestru uchod.

Mae gofyn i chi ail-greu sylweddiad dilys cyflawn o'r gân wreiddiol, gan gynnwys yr holl linellau llais, rhannau offerynnol a nodweddion cynhyrchu sydd i'w clywed ar y recordiad gwreiddiol.

Tasg glywedol yw hon yn bennaf, ac nid oes sgôr wedi cael ei chynnwys. Cewch weithio o sgôr os ydych yn dymuno hynny, ond byddwch yn ymwybodol fod sgorau caneuon Roc a Phop yn aml yn anghyflawn neu'n anghywir.

Dylech geisio cydweddu ansoddau (*timbres*) a manylion perfformiad mor agos ag sy'n bosibl â'r recordiad gwreiddiol, a **rhaid** i chi recordio perfformiad byw o'r **prif ran leisiol** ac integreiddio hwn yn y cymysgedd terfynol. Gall y rhan leisiol wreiddiol gael ei thrawsnodi ar gyfer llais dyn neu fenyw. Gallwch recordio **hyd at dri** thrac sain byw (gan gynnwys y prif lais). Gall y lleisiau cefndir gael eu recordio'n fyw neu eu dilyniannu gan ddefnyddio technegau ac ansoddau priodol.

Nid yw'n briodol defnyddio unrhyw ddolenni sain neu MIDI a raglennwyd ymlaen llaw yn y dasg hon.
Ni ddylech samplu sain o'r recordiadau gwreiddiol.

**Dylech gyflwyno'ch perfformiad gorffenedig fel Trac 1 ar eich CD Portffolio Technoleg Cerddoriaeth 2**

**(Cyfanswm ar gyfer Tasg 3A = 40 marc)**

**Tasg 3B: Recordiad Aml-drac**

Gwnewch recordiad o ddarn o gerddoriaeth o'ch dewis chi mewn arddull sy'n gysylltiedig â Maes Astudio 3: Datblygiad Cerddoriaeth yn seiliedig ar Dechnoleg.

Mae'n rhaid i chi recordio darn o gerddoriaeth sydd wedi'i ryddhau'n gyffredinol, neu ddarn safonol cydnabyddedig o roc, pop neu jazz. **Ni** all hwn fod yn gyfansoddiad gwreiddiol gan y myfyriwr.

Mae'n rhaid i'ch recordiad gynnwys pedwar offeryn acwstig a/neu gerddorfaol (Pwnc A) **neu** bedwar offeryn taro (Pwnc B).

Gall deunydd ysgogi gael ei drefnu i fodloni gofynion y fanyleb ac i fod yn addas at yr adnoddau sydd ar gael ond ni fydd y trefniant yn cael ei asesu.

Dylai eich recordiad:

- bara rhwng 3 a 5 munud
- defnyddio o leiaf 12 trac
- bod ag o leiaf wyth trac sy'n cael eu dal gan ddefnyddio microffonau
- defnyddio daliad DI lle bo'n briodol
- gwneud defnydd o dechnegau tros-seinio (*overdub*)
- defnyddio cerddorion byw yn unig, ac ni ddylai gynnwys unrhyw berfformiad wedi'i ddilyniannu gan MIDI
- bod yn gynhyrchiad stereo'n rhydd rhag sŵn gan ddefnyddio effeithiau priodol, EQ a phrosesu dynameg.

**Dylech gyflwyno'ch recordiad gorffenedig fel Trac 2 ar eich CD Portffolio Technoleg Cerddoriaeth 2**

**(Cyfanswm ar gyfer Tasg 3B = 40 marc)**

**TUDALEN WAG**

**Tasg 3C: Cyfansoddi gan Ddefnyddio Technoleg Cerddoriaeth**

**Dewiswch UN o'r briffiau canlynol, a chyfansoddwch ddarn gwreiddiol yn unol â'r cyfarwyddiadau.**

Mae'n rhaid i dechnoleg cerddoriaeth fod yn ganolog i'r darn rydych chi'n ei gyfansoddi. Cewch ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau gan gynnwys offerynnau wedi'u mwyhau, offerynnau electronig a rhith-offerynnau, samplau, MIDI, offerynnau acwstig a cherddorfaol, a lleisiau.

Defnyddiwch amrywiaeth o dechnegau rhaglennu i reoli, addasu (*manipulate*) a golygu'r seiniau rydych chi'n eu dewis.

Crëwch recordiad stereo o ansawdd uchel o'ch cyfansoddiad, sy'n talu sylw i bob agwedd ar gynhyrchu – daliad, cydbwysedd, asio (*blend*), EQ, dynameg, maes stereo ac FX.

**BRIFF CYFANSODDI 1**

**Byw'r Freuddwyd**

Rydych chi wedi cael eich comisiynu i gyfansoddi'r gerddoriaeth ar gyfer chwe golygfa wahanol mewn cartŵn newydd, sy'n cynnwys Zee-T, peiriannydd recordio a cherddor ifanc dawnus sy'n dechrau gwneud enw iddo'i hun ym myd cynhyrchu cerddoriaeth. Mae arddull y cartŵn yn gyfoes, ac yn symud yn gyflym; mae'n ddynamig, yn llawn egni, yn ddigrif ac yn ymroddedig i'w waith.

Mae'n rhaid i'r gerddoriaeth rydych chi'n ei chreu ddangos amrywiaeth er mwyn adlewyrchu naws a chynnwys pob golygfa'n gywir. Rhaid i chi ddilyn yr amseriadau a roddir.

---

**Cyfansoddwch CHWE thrac AR WAHÂN sy'n para am gyfanswm o dair munud fel yr amlinellir isod:**

| Adran | Hyd (mewn eiliadau) | Delweddau |
|---|---|---|
| 1 | 30 | **Teitlau agoriadol/arwyddgan (*theme tune*).** Mae'r delweddau'n dangos Zee-T mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd; yn tiwnio'i gitâr ac yn chwarae ychydig guriadau, yn canolbwyntio tu ôl y ddesg wrth weithio ar gymysgedd, yn gwenu wrth lanhau ei sglefrfwrdd, yn ymlacio a chwerthin gartref gydag ychydig o ffrindiau. |
| 2 | 30 | **Y Daith.** Mae Zee-T yn sglefrio drwy barciau Llundain ar ei ffordd i gyfweliad pwysig yn West Sound Studios; mae'r rheolwr wedi clywed am ei waith ac eisiau gweld a yw'n gallu ymdopi â galwadau'r swydd – efallai mai hyn fydd ei foment fawr! |
| 3 | 30 | **Y Cyfweliad.** Mae Zee-T yn cyrraedd, ac mae'n rhaid iddo aros yn y dderbynfa. Mae'n hyderus ar yr wyneb, ond mae'n nerfus iawn y tu mewn hefyd. Mae'r aros yn parhau, ac mae'n ceisio peidio â chynhyrfu, ac o'r diwedd caiff ei alw i mewn. Wrth iddo eistedd a dechrau ateb cwestiynau, mae'n dod yn fwy cyfforddus ac yn dechrau mwynhau ei hun – dyma beth mae'n ei wneud orau, siarad am ei angerdd am gerddoriaeth a recordio. Erbyn y diwedd, mae'n teimlo'i fod wedi gwneud argraff dda. Mae'r rheolwr yn dweud y bydd yn cysylltu'n hwyrach. |
| 4 | 20 | **Dadl!** Mae'n cyrraedd adref yn llawn cyffro ac yn ddiamynedd. Nid yw'n gallu ffonio'i ffrindiau, mae angen i'w ffôn fod yn rhydd ar gyfer yr alwad y mae'n aros amdani. Mae'n tecstio rhai o'i ffrindiau, mae'n cerdded o gwmpas, yn nerfus iawn nawr. Mae'r ffôn yn canu – ei gariad sydd yno: O na! Dylai fod wedi cyfarfod â hi am ginio ond anghofiodd yn llwyr! Ceir geiriau cryf ac ambell gyhuddiad. Mae Zee nawr yn teimlo'n isel iawn ac nid yw'n siŵr sut i adfer pethau, ac yna mae'r ffôn yn canu eto...Gwych! Mae wedi cael y swydd, mae'n cychwyn yfory! Daw'r olygfa i ben gyda Zee wrth ei fodd, yn ffonio'i ffrindiau ac yn rhannu'r newyddion da. |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | **40** | **Y Sesiwn Gyntaf.** Mae Zee yn gwneud gwaith gosod a rigio ar gyfer yr hen rocwyr sarrug Übergrunt. Maent yn rhoi amser caled i'r dyn ifanc, yn cwyno am bopeth; yn annisgwyl, nid yw'r cynhyrchwr mewnol yn gallu cyrraedd tan yn hwyrach, ac mae Zee ar ei ben ei hun i orffen y sesiwn. Mae'n sicr ei fod yn cael sain wych, ond mae Übergrunt yn parhau i feirniadu. Mae'n straen ond mae Zee-T yn cadw'n dawel ac yn cael rhai cynigion (*takes*) y mae'n fodlon â nhw. Fodd bynnag, mae'r drymiwr yn parhau i roi amser caled i Zee pan ddaw'r rheolwr a'r cynhyrchwr mewnol i mewn: mae ei galon yn curo wrth iddo chwarae ei recordiadau, mae pawb yn edrych yn ddifrifol. Mae gwên lydan yn ymddangos ar wyneb y rheolwr – mae pawb yn chwerthin ac yn gweiddi. Twyll fu'r cyfan, prawf ar waith Zee-T o dan bwysau! Mae pob un ohonynt yn mynd i far cyfagos i ddathlu, ac mae Zee yn ffonio'i gariad i esbonio beth sydd wedi bod yn digwydd. Mae'n gefnogwr *enfawr* o Übergrunt, felly mae'n rhaid iddi faddau iddo ac mae'n dod i ymuno â nhw. |
| **6** | **30** | **Yr Olygfa Derfynol a'r Glodrestr (*Credits*).** Mae'r olygfa derfynol yn dangos Zee-T mewn sefyllfaoedd amrywiol yn y stiwdio, yn gweithio gydag artistiaid uchel eu proffil fel y difas pop Babes Allowed a'r band indie gwych Coolday, ac yn jamio gyda'i fand ei hun. Mae ef bob amser yn fywiog, yn gwenu, yn brysur ac yn egnïol. Mae'r rheolwr yn gwenu arno ac yn amneidio'i ben ato wrth i'r glodrestr derfynol ymddangos. |

Fe'ch cynghorir i wrando ar amrywiaeth o gerddoriaeth deledu a ffilm, a bod yn ymwybodol o bwysigrwydd themâu mewn cyd-destunau gwahanol.

**Rhaid i'r cyfansoddiad gynnwys o leiaf CHWE rhan offerynol/lleisiol ar wahân.**

**Dylech wneud defnydd creadigol o dechnoleg cerddoriaeth i ddatblygu eich cyfansoddiad, ac i gynhyrchu sylweddiad wedi'i recordio o ansawdd da o'ch cyfansoddiad.**

Cewch ddefnyddio unrhyw gyfuniad o MIDI (GM, heb fod yn GM, ac ansoddau gwreiddiol), samplau a/neu draciau sain/offerynnau/seiniau byw yn eich cyfansoddiad. Cewch ddefnyddio seiniau atmosfferig ac effeithiau electro-acwstig yn ogystal ag ansoddau offerynnol confensiynol. Mae creu sain wreiddiol (trwy ddefnyddio synthesis a samplu) yn cael ei annog.

Rhaid i'r pwyslais fod ar y gerddoriaeth, NID ar effeithiau sain. Atgoffir ymgeiswyr mai tasg gyfansoddi yw hon, nid tasg ailgymysgu neu drefnu.

Dylai unrhyw samplau rydych chi wedi eu defnyddio gael credyd yn eich Llyfryn Cyflwyno, gyda manylion unrhyw brosesu a ffynhonnell y samplau (p'un ai ydynt o set fasnachol neu'n hunanrecordiad).

**Dylech gyflwyno'ch cyfansoddiad gorffenedig fel Traciau 3–8 ar eich CD Portffolio Technoleg Cerddoriaeth 2.**

**(40)**

## BRIFF CYFANSODDI 2

***Alone***

Crëwch gyfansoddiad gan ddefnyddio'r gerdd *Alone* gan Maya Angelou. Fe'ch cynghorir i astudio'r testun a'i ystyr yn ofalus.

*Alone*

Lying, thinking
Last night
How to find my soul a home
Where water is not thirsty
And bread loaf is not stone
I came up with one thing
And I don't believe I'm wrong
That nobody,
But nobody
Can make it out here alone.

Alone, all alone
Nobody, but nobody
Can make it out here alone.

There are some millionaires
With money they can't use
Their wives run round like banshees
Their children sing the blues
They've got expensive doctors
To cure their hearts of stone.
But nobody
No, nobody
Can make it out here alone.

Alone, all alone
Nobody, but nobody
Can make it out here alone.

Now if you listen closely
I'll tell you what I know
Storm clouds are gathering
The wind is gonna blow
The race of man is suffering
And I can hear the moan,
'Cause nobody,
But nobody
Can make it out here alone.

Alone, all alone
Nobody, but nobody
Can make it out here alone.

*Maya Angelou*

**Cyfansoddwch ddarn parhaus o gerddoriaeth sy'n para am DAIR MUNUD.**

Gall eich cyfansoddiad fod ar ffurf cân (sy'n gorfod cynnwys llais wedi'i recordio), neu ddarn o gerddoriaeth gyfoes sy'n defnyddio samplau sain a grëwyd o ddetholiadau o'r testun wedi'u recordio.

**Rhaid i'r cyfansoddiad gynnwys o leiaf CHWE rhan offerynnol/lleisiol ar wahân.**

**Dylech wneud defnydd creadigol o dechnoleg cerddoriaeth i ddatblygu eich cyfansoddiad, ac i gynhyrchu sylweddiad wedi'i recordio o ansawdd da o'ch cyfansoddiad.**

Cewch ddefnyddio unrhyw gyfuniad o MIDI (GM, heb fod yn GM, ac ansoddau gwreiddiol), samplau a/neu draciau sain/offerynnau/seiniau byw yn eich cyfansoddiad. Cewch ddefnyddio seiniau atmosfferig ac effeithiau electro-acwstig yn ogystal ag ansoddau offerynnol confensiynol. Mae creu sain wreiddiol (trwy ddefnyddio synthesis a samplu) yn cael ei annog.

Rhaid i'r pwyslais fod ar y gerddoriaeth, NID ar effeithiau sain. Atgoffir ymgeiswyr mai tasg gyfansoddi yw hon, nid tasg ailgymysgu neu drefnu.

Dylai unrhyw samplau rydych chi wedi eu defnyddio gael credyd yn eich Llyfryn Cyflwyno, gyda manylion unrhyw brosesu a ffynhonnell y samplau (p'un ai ydynt o set fasnachol neu'n hunanrecordiad).

**Dylech gyflwyno'ch cyfansoddiad gorffenedig fel Trac 3 ar eich CD Portffolio Technoleg Cerddoriaeth 2.**

**(40)**

## BRIFF CYFANSODDI 3

### Arlywydd Obama

Ym mis Ionawr 2009, cafodd Barack Obama ei urddo'n arlywydd Unol Daleithiau America, y dyn Affricanaidd-Americanaidd cyntaf yn y Tŷ Gwyn. Mae'r Unol Daleithiau wedi dod ymhell ers caethwasiaeth (*slavery*) y 19eg ganrif, agweddau hiliol dechrau'r 20fed ganrif, y Mudiad Hawliau Sifil a diwedd gwahanu yn ystod y 1960au. Bu llawer o frwydrau ar hyd y daith, ac mae gweithredwyr fel Martin Luther King a Malcolm X wedi ymroi i'r achos drwy gydol eu bywydau.

Ai dyma gychwyn dealltwriaeth newydd, rhyddid newydd? Neu ai dim ond consesiwn bach yw hwn tra bo'r rheolaeth go iawn rywle arall, draw rhag wyneb cyhoeddus y gwleidyddion? Beth fydd yr effaith ar adeg anodd yng ngwleidyddiaeth y byd? A ddaw'r arlywydd newydd â safbwynt newydd gydag ef?

---

Crëwch gyfansoddiad sy'n defnyddio samplau sain digidol o areithiau, adroddiadau newyddion a deunydd perthnasol eraill, e.e. bwletinau gwybodaeth gyhoeddus a thrafodaethau, neu ddetholiadau wedi'u darllen yn uchel o erthyglau papur newydd, a'u hymgorffori nhw'n greadigol mewn cyfansoddiad gwreiddiol sy'n adlewyrchu eich teimladau eich hun am y materion hyn.

Gan ddefnyddio meddalwedd technoleg cerddoriaeth, ymgorfforwch o leiaf 6 sampl o eiriau a/neu ymadroddion yn eich cyfansoddiad. Rhaid i chi ddefnyddio ystod o nodweddion golygu i addasu eich samplau ac i greu seiniau a gweadau newydd.

**Cyfansoddwch ddarn parhaus o gerddoriaeth sy'n para am DAIR MUNUD.**

**Rhaid i'r cyfansoddiad gynnwys o leiaf CHWE thrac/rhan ar wahân.**

**Dylech wneud defnydd creadigol o dechnoleg cerddoriaeth i ddatblygu eich cyfansoddiad, ac i gynhyrchu sylweddiad wedi'i recordio o ansawdd da o'ch cyfansoddiad.**

Cewch ddefnyddio unrhyw gyfuniad o MIDI (GM, heb fod yn GM, ac ansoddau gwreiddiol), samplau a/neu draciau sain/offerynnau/seiniau byw yn eich cyfansoddiad. Cewch ddefnyddio seiniau atmosfferig ac effeithiau electro-acwstig yn ogystal ag ansoddau offerynnol confensiynol. Mae creu sain wreiddiol (trwy ddefnyddio synthesis a samplu) yn cael ei annog.

Rhaid i'r pwyslais fod ar y gerddoriaeth, NID ar effeithiau sain. Atgoffir ymgeiswyr mai tasg gyfansoddi yw hon, nid tasg ailgymysgu neu drefnu.

Dylai unrhyw samplau rydych chi wedi eu defnyddio gael credyd yn eich Llyfryn Cyflwyno, gyda manylion unrhyw brosesu a ffynhonnell y samplau (p'un ai ydynt o set fasnachol neu'n hunanrecordiad).

**Dylech gyflwyno'ch cyfansoddiad gorffenedig fel Trac 3 ar eich CD Portffolio Technoleg Cerddoriaeth 2.**

**(40)**

**(Cyfanswm ar gyfer Tasg 3C = 40 marc)**

---

**CYFANSWM AR GYFER Y PAPUR = 120 MARC**